

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 12fed Ionawr, 2010, yn Y Neuadd Goffa, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 12th January, 2010 at The Memorial Hall, Y Felinheli

Yn Bresennol/Present: Sian Gwenllian (Cadeirydd)
Ken Brown(Is-Gadeirydd)
Lena Ashley; Iestyn Harris; Pat Jones; Eluned Owen;
Carolyn Pritchard; Meirion Roscoe; Gerald Roberts;
George Smith; Daniel Williams

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Cafwyd munud o dawelwch er cof am Sandra Parry fu farw yn sydyn ar fore'r Nadolig 2009. Dywedodd y Cadeirydd fod 2009 wedi bod yn flwyddyn anodd i'r pentref ac fe wynebwyb llawer o golledion. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig cefnogi ein gilydd ar adegau trist fel hyn.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd. Roedd y Cadeirydd yn edrych mlaen at weld gwblhau prosiect y Neuadd o fewn y flwyddyn hon ynghyd a nifer o brosiectau eraill.

A minutes silence was observed in memory of Sandra Parry who died suddenly on Christmas morning 2009. The Chairman remarked that 2009 had been a difficult year for the village with many losses having to be faced. She emphasised the importance of supporting each other on sad occasions such as these.

The members were welcomed to the first meeting of the New Year. The Chairman is looking forward to seeing the Hall project being completed within the year as well as a number of other projects.

2) Anerchiad Mr Graham Fitch, Ysgrifennydd Arfon y Ramblers Address by Mr Graham Fitch, Secretary of the Arfon Ramblers

Mae Graham is cynnig creu mapiau digidol ar gyfer y wefan felinheli.org yn dangos cylchdeithiau cerdded yn y pentref fydd hefyd yn cynnwys lluniau a gwybodaeth hanesyddol. Dangosodd un esiampl ac roedd y Cyngor yn frwd iawn i weld y gwaith yn cael ei ddatblygu ac fe ddiolchwyd i Graham am ei ddiddordeb ac i'r Cynghorydd George Smith fydd yn gweithio gydag ef ar y cylchdeithiau. Diolchwyd i Graham am drefnu taith gerdded yn y pentref ar Ddydd Calan a gobeithwyd y byddai'n gallu trefnu mwy i'r dyfodol. Gweithrediad : Cyng. George Smith i arwain y gwaith.

Graham offered to create digital maps for the web site felinheli.org showing circular walking routes in the village to include photographs and historical information. He showed an example and the Council were keen to see the development of the work and Graham was thanked for his interest as was also Cllr George Smith for working with him on the routes. Graham was also thanked for organising a walk in the village on New Year's Day and the hope that he will arrange more walks in the future.
Action: Cllr George Smith to take the lead.

3) Ymddiheuriadau/Apologies: Pat White

4) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

5) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Rhagfyr fel rhai cywir.

Minutes of the Meeting held on 8th December were confirmed as correct.

6) Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

- 1) Gwefan Cymunedol – dim i'w adrodd
- 2) Traffic a Parcio – Dim symudiad ar y mater o drosglwyddo darn o dir tu ol i Neuadd yr Eglwys ar gyfer creu maes parcio. Dim ymateb gan yr Eglwys hyd yn hyn. GWEITHREDIAD – Clerc i ddilyn y mater efo'r Eglwys.
- 3) Cyfyngu amser parcio ar Stryd Bangor – Clerc i bwyso ar Adrian Williams o Gyngor Gwynedd i symud ymlaen efo'r cynlluniau sydd wedi eu trafod a'u cytuno.

Felin Daclus :-

- 1) Adroddodd y Cadeirydd fod y Cynulliad am ddefnyddio gwaith y Felin Daclus fel enghraifft o ymarfer da y gall pentrefi eraill ei ddilyn. GWEITHREDIAD – Cyng. Sian Gwenllian i arwain.
- 2) Llwybr preifat rhwng Uwch Menai/Penceunant/Stryd Menai. GWEITHREDIAD – Clerc i drefnu fod y contractwyr yn gwneud y gwaith ar ol cytuno'r pris gyda Cyng. Sian Gwenllian a Ken Brown.
- 3) Canolfan Iechyd Rowen : Dim i'w adrodd.
- 4) Tai Fforddiadwy : Dim newydd i'w adrodd. GWEITHREDIAD – Cyng Sian Gwenllian i gadw mewn cysylltiad efo Adran Cynllunio'r Cyngor ar gais Tan y Maes.

- 1) Community Web Site – Nothing to report

- 2) Traffic and Parking –Reported that there was no progress to report on the transfer of a parcel of land at the rear of Church Hall for the purpose of creating a parking area.. No response from the Church at this stage. ACTION ; Clerk to follow up with the Church.
- 3) Parking Restrictions – Clerk to impress on Adrian Williams, Gwynedd Council, to proceed with the plans as discussed and agreed.

FELIN DACLUS -

- a. Chairman reported that the Assembly were going to use the work of Felin Daclus as an example of good practices other villages could follow.
ACTION – Cllr Sian Gwenllian to lead.
- b. Private footpath between Uwch Menai/Penceunant, Menai Street.
ACTION – Clerk to arrange for the contractors to undertake the work after agreeing the price with Clls Sian Gwenllian and Ken Brown.

Rowen Health Centre : Nothing to report.

Affordable Housing : Nothing new to report. ACTION- Cllr Sian Gwenllian in contact with the Council's Planning Department.

7) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd

- a) Cafwyd adroddiad gan Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli, Cyng Iestyn Harris. Nodwyd fod y cynllun wedi ei newid er mwyn gwneud gwell defnydd o'r stafell waelod a chynnyddu gofod storio. Holwyd beth fyddai polisi llogi'r Neuadd ar ei newydd wedd.
- b) GWEITHREDIAD (1)– IH, WB CP, KB,DW , i barhau cadw cysylltiad agos a'r pensaer
- c) GWEITHREDIAD (2) Pwyllgor Rheoli i drafod polisi llogi i grwpiau lleol a phreifat gan ymchwilio i'r sefyllfa mewn pentefi eraill.
- d) Cytunwyd i gynnal cyfarfodydd Mawrth ac Ebrill o'r Cyngor Cymuned yn y Capel a yna yn y Felin Sgwrsio ar ol hynny tan fod y Neuadd yn ail-agor. GWEITHREDIAD– WB i drefnu.
- e) Cafwyd cais i gynnal arddangosfa luniau yn y Neuadd yn yr Hydref. GWEITHREDIAD – KB i roi gwybod i'r trefnwyr fod hyn yn iawn ac i weithio efo'r Gymdeithas Hanes ar y posibilrwydd o gynnal arddangosfa luniau barhaol yn y Neuadd yn seiliedig ar brofiadau pentrefwyr yn ystod y ddau Ryfel Byd gan ymgorffori'r placiau coffa i'r arddangosfa.

HALL MANAGEMENT COMMITTEE -

- a) Report from the Chairman of the Management Committee, Cllr Iestyn Harris. Noted that the plans had been altered in order to make better use of the committee room and increase storage space. Enquired as to what would be the letting policy once the work had been completed.

- b) ACTION (1) IH, WB, CP,KB, DW to continue to keep close contact with the Architect.
- c) ACTION (2) Hall Management Committee to discuss a hiring policy to local and private groups and by enquiries of other villages.
- d) Agreed that meetings of the Community Council for the months of March and April be held at the Chapel, thereafter at Y Felin Sgwrsio until completion of the works on the Hall.
ACTION – WB to arrange.
- e) Request received to hold a photo exhibition in October.
ACTION – KB to notify the organisers that this would be alright and to liaise with the Historical Society with the possibility of establishing a permanent exhibition at the Memorial Hall based on the experiences of villagers during the two World Wars and incorporating the memorial plaques.

8) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd gwariant Mis Rhagfyr.

Trafodwyd cyllideb drafft am 2010/2011 ac fe'i mabwysiadwyd.

Cytunwyd i gadw'r praesept ar yr un level gan nad oedd y Cyngor yn rhagweld cynnydd yn y gwariant.

GWEITHREDIAD - WB

Payments for the month of December were confirmed.

The draft budget for 2010/2011 was discussed and adopted.

Agreed that the precept be maintained at the same level as the Council could not foresee and increase in expenditure.

ACTION – WB

9) Gohebiaeth/Correspondence:

Nodwyd a gweithredwyd fel bo angen, y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.

Correspondence received during the month were noted and acted upon as necessary.

- 1) Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council – Trefniadau casglu gwastraff/ailgylchu ardal Arfon
Waste/recycling arrangements in the Arfon area

2) *Un Llais Cymru / One Voice Wales*

Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref
Notice of Training Session on Tuesday, 2nd February (Welsh Only)

Rhifyn diweddaraf o "Y Llais"
Latest edition of "The Voice"

3) *Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol / The Princess Royal Trust*

Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr / Carers Outreach Service

4) *Bwrdd Iechyd Prifysgol / University Health Board*

Ymgynghoriad Cyhoeddus / Public Consultation

5) *Llywodraeth Cynulliad Cymru / Welsh Assembly Government*

Diweddariad ar Gynghorau Cymuned a Thref
Update on Community and Town Councils

10) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Adroddwyd bod gwlybanaeth tu mewn i'r cloc.
GWEITHREDIAD – WB i gysylltu a'r contractwr arferol.

Water still penetrating the clock – WB to consult with the usual contractor.

11) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Hilbre – cyn trafod y ceisiadau. Nodwyd fod is-bwyllgor wedi ei gynnal i drafod cais Hilbre ond nad oedd corwm. Nodwyd y byddai'r is-bwyllgor yn argymhell caniatáu. Erbyn hyn mae'r cais wedi ei basio gan y Cyngor Sir.

Hilbre – before discussing the applications it was noted that a sub-committee had met to discuss the application but without a quorum. Noted that the sub-committee would have suggested granting the application. By now the application had been granted by Gwynedd Council.

1) *Safle yr hen rheilffordd, Y Felinheli - Cae Chwarae aml-bwrpas, manau parcio, ystafelloedd newid a llifoleuadau.*

*Site of the old railway line – Multi-purpose playing field, parking
Accommodation changing rooms and floodlights*

**Cynghorydd Sian Gwenllian yn datgan diddordeb / Cllr Sian Gwenllian
declared an interest**

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

- 2) Menai Straits Foreshore Area, adjacent to Quayside Lodge and River Channel, below Hotel Plas Dinorwic, Y Felinheli. - Adeiladu cleidr cychod a man parcio ol-gerbydau (Cynllun diwygiedig I'r hyn a wrthodwyd o dan gais rhif CO9A/0258/20/LL

Erection of a boat slipway and trailer park (Amended scheme to that refused under application number CO9A/0258/20/LL

GWRTHWYNEBIAD / OBJECTION

Amharu ar y wal bresenol nodwedd pensaernïol / Interference with existing wall from an architectural view point.

Defnydd jet skis / Use by jet skis

Gorddatblygiad o'r safle ardal / Overdevelopment

Amharu ar ddefnyddwyr presenol yn dod i mewn i'r harbour / Interfere with existing users of the harbour.

Mae yna slipiau eraill yn Y Felinheli / other boat slips in Y Felinheli

A fydd na farc mordwyaeth ar ei ddiwedd o / Will there be a navigation light at its extreme point.

Mynediad yn amharu ar llwybr cyhoeddus / Interference with public footpath

- 3) 84 Stryd Bangor / Bangor Street, Y Felinheli - Newid defnydd y ty presennol i ddau fflat hunangynhaliol ac addasu a ehangu / Change of use of the existing dwelling into two self-contained flats together with alterations and extensions.

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

- 4) 7 Ffordd Glyder, Y Felinheli - Estyniad uwchben modurdy i greu ty (Cynllun diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd o dan cais rhif CO5A/0199/20/LL / Extension above garage to create a dwelling (amended scheme to that approved under application reference number CO6A/0199/20/LL

GWRTHWYNEBIAD / OBJECTION

Adeilad yn uwch na'r adeiladau presennol / Higher than existing dwellings

Ddim yn gytun a golygfa stryd / not compatible with street scene

Gorlenwi'r Safle / overcrowding of site.

- 5) Neuadd Goffa / Memorial Hall, Y Felinheli - Newidiadau a gwelliannau Allanol / External alterations and improvements.

Y Cyngor yn datgan diddordeb am mai eiddo'r Cyngor yw'r Neuadd
The Council declared an interest as the Hall belongs to the Council

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Adroddwyd fod y Clerc a'r contractwr i gysylltu er mwyn darparu mwy o dir ar gyfer Claddedigaethau. **GWEITHREDIAD** - Clerc i drefnu ac i fonitro.

Adroddwyd fod y plac ar gyfer y fainc wedi ei archebu.
GWEITHREDIAD – WB i drefnu i'w osod.

Reported that the Clerk and the Contractor are to meet in order to extend the land for burials. **ACTION** – Clerk to arrange and to monitor.

Reported that the plaque for the bench had been ordered. **ACTION** – Clerk to arrange fixing.

13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Adroddwyd fod cais wedi dod i'r Cyngor Cymuned ddarparu graean as gyfer y Maes Parcio. Cafwyd trafodaeth lawn ar broblemau graeanu yn y pentref yn sgil yr eira diweddar. Diolchwyd i gynghorwyr cymuned oedd wedi helpu i glirio eira mewn rhannau o'r pentref.

GWEITHREDIAD 1 – Cyng. Meirion Roscoe a Gerald Roberts i ymchwilio ymhellach i be all y Cyngor Cymuned ei wneud a lle sydd angen sylw a dod ag adroddiad ger bron y Cyngor nesaf.

GWEITHREDIAD 2 – WB – i ddarparu bagiad bychan o raeon ar gyfer y maes parcio cymunedol. (i'w leoli yn y boat shed)

PRYDLES – Adroddwyd for y mater bellach yn nwylo twrna'r Cyngor Cymuned.

Adroddwyd nad oedd y tyfiant ar y slabiau wedi ei dorri.

GWEITHREDIAD –WB i son wrth Mark Balaam o Gyngor Gwynedd. WB i atgoffa hefyd am yr addewid am arwydd Dim Parcio ger mynedfa'r Lon Las yng ngwaelod Penybryn.

Reported that a request had been received for the Community Council to supply grit for the public car park, A full discussion followed regarding gritting problems in the village during the recent snow. The Community Councillors who helped to clear the snow in some parts of the village were thanked.

ACTION 1 – Cllr Meirion Roscoe and Gerald Roberts to further enquire as to what the Community Council are able to do and the areas that require attention and report to the Council at its next meeting.

ACTION 2 – WB to arrange to provide a bag of grit for the public car park (to be left at the boat shed)

LEASE – matter now in the hands of the Community Council's Solicitor

Reported that the overgrowth on the slate slabs had not been dealt with.

ACTION – WB to mention to Mark Balaam from Gwynedd Council and also to remind him of his promise to place a No Parking sign at the entrance to Lon Las on the Penybryn side.

14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – Adroddwyd na fu llawer o symud gyda'r syniad o gael Taflen ar y cyd a chynghorau eraill. GWEITHREDIAD – WB i bwysu ar y Swyddog Bro, Dafydd Einion, i symud ymlaen.

Arolwg Llwybrau : mae gwaith oedd angen ei wneud yn cael ei wneud – gydag arwyddion newydd yn ymddangos yn y pentref.

GWEITHREDIAD – Cynghorydd George Smith i fonitro gwaith y Cyngor Sir.

Footpaths – reported that there was little progress with the idea of publishing a Pamphlet jointly with other councils. ACTION – WB to press on the Rural Development Officer, Dafydd Einion, to proceed.

Footpaths Survey – the work needing to be done is being done – with new signs appearing in the village.

15) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Adroddiad ar lafar.

1. Bu'r Cynghorydd yn delio efo nifer o faterion tenantiaeth
2. Cafodd ceisiadau am fwy o funiau melyn graean eu gwrthod – ond bydd y Cynghorydd yn parhau i bwysu.
3. Bu'r Cynghorydd yn trafod gwaith sydd i'w wneud yn Rhyd y Fenai a Maes y Felin gyda swyddog o'r Cyngor.

Tynnwyd nifer o faterion i sylw'r Cynghorydd a'r Cyngor Cymuned.

- 1) Arwydd Eglwys – mae cais wedi ei dderbyn ar gyfer arwydd ger cylchdro Plas Menai i ddynodi Eglwys Llanfairisgaer. Mae'r Cynghorydd yn trafod hyn efo'r Cyngor Sir. GWEITHREDIAD – SG
- 2) Baw Cwn – mae hyn yn broblem sydd ar gynnydd.
GWEITHREDIAD 1 – KB i ofyn i'r Plismon Rhawd Cymunedol am help.
GWEITHREDIAD 2 – Penderfynwyd estyn gwahoddiad i'r plismon newydd i gyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn trafod hyn a materion eraill

- 3) Bwydo gwylannod – mae hyn yn creu problem yn y pentref.
GWEITHREDIAD – cynghorwyr i ofyn i bobl roi'r gorau i wneud hyn.

A verbal report was received:

- 1) The Councillor has been dealing with a number of tenancy matters.
- 2) An application requesting more yellow grit bins has been refused – but the Councillor will continue to pressurise.
- 3) The Councillor has been discussing work to be done in Maes y Felin and Rhyd y Fennai with an Officer of Gwynedd Council.

A number of matters were drawn to the Councillor and Council's attention:

- 1) Sign indicating the Church at Llanfairisgaer – reported that an application had been received for a sign on the Plas Menai Roundabout indicating the Church at Llanfairisgaer., The Councillor is discussing the matter with Gwynedd Council.
- 2) Dog Fouling – this is a problem that is on the increase
ACTION 1 – KB to request the help of the Community Beat Officer.
ACTION 2 – To invite the new Community Beat Officer to the next meeting of the Council to discuss this problem and other matters.
- 3) Feeding Seagulls – this is creating a problem in the village.
ACTION – Councillors to ask people to desist this habit.

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 9.00 yh

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Y Neuadd Goffa am 7.00 y.h. Nos Fawrth ,
Chwefror 9fed.

No other matters to discuss and the Meeting finished at 9.00.p.m.

The next meeting will be held at the Memorial Hall at 7.00 p.m. on Tuesday 9th
February 2010